# Protocol Symudiadau wedi'u Rheoli

## Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

Hydref 2019

## Cynnwys


| Adrannau | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | 3 |
| **2** | Pryd y dylid defnyddio symudiad wedi'i reoli? | 4 |
| **3** | Ymateb Graddedig | 5 |
| **4** | Proses y Symudiad wedi'i Reoli | 6 |
| **5** | Symudiadau wedi'u Rheoli a'r Cod Derbyn i Ysgolion | 12 |
| **6** | Ymarfer Annerbyniol | 12 |
| **7** | Monitro ac adolygu'r polisi | 13 |

| Atodiadau | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Symudiadau wedi'u Rheoli - gwybodaeth i rieni/cynhalwyr | 14 |
| **2** | Gwahoddiad i gyfarfod | 16 |
| **3** | Ffurflen Bwriad i Drosglwyddo | 17 |
| **4** | Ffurflen Cytuno i Symudiad wedi'i Reoli | 23 |
| **5** | Ffurflen Gwerthuso Symudiad wedi'i Reoli | 26 |
| **6** | Proses y Symudiad wedi'i Reoli | 28 |

## Adran 1. Cyflwyniad

Mae Symudiad wedi'i Reoli yn strategaeth ymyrraeth effeithiol a gaiff ei hargymell yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd disgyblion (Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion; dogfen ganllaw rhif: 171/2015):

> *'Os bydd ysgol yn teimlo na all reoli ymddygiad dysgwr penodol ragor, gall drefnu, drwy'r ALl fel rheol, fod ysgol arall yn cymryd cyfrifoldeb am addysg y dysgwr. Ni ddylid gwneud hynny ond trwy sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol, gan gynnwys y rhieni/gofalwyr a'r ALl, wedi cael gwybodaeth lawn ac yn rhoi pob cydweithrediad, ac mewn amgylchiadau lle byddai hyn er budd gorau'r dysgwr dan sylw. Ni ddylid fyth roi pwysau ar rieni/gofalwyr i symud eu plentyn o'r ysgol trwy eu bygwth â gwaharddiad parhaol ac ni ddylai dysgwyr gael eu dileu o'r gofrestr i'w hannog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall. Mae gwybodaeth am yr unig resymau cyfreithiol dros ddileu enw dysgwr o gofrestr yr ysgol yn Rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.'*

Mae canllawiau penodol Llywodraeth Cymru ar symudiadau wedi'u rheoli (Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol 096/2011) wedi helpu i lywio'r polisi lleol yma a sicrhau y caiff dull gweithredu cyson a thrylwyr ei roi ar waith yn Rhondda Cynon Taf.

Mae symudiadau wedi'u rheoli yn rhoi dechrau newydd i ddisgyblion mewn ysgol newydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau'r trafferthion maen nhw'n eu hwynebu yn eu hysgolion presennol. Rydyn ni wedi bod yn defnyddio trefniadau ffurfiol o'r fath yn Rhondda Cynon Taf am beth amser, a hynny fel dull ataliol er mwyn osgoi gwahardd disgyblion yn barhaol a'r deilliannau negyddol sy'n gysylltiedig â hynny, yn ogystal â galluogi disgyblion i barhau i dderbyn addysg llawn amser. I ddechrau, caiff cyfnod prawf ei gynnal ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol newydd yn fwy bodlon i dderbyn disgybl sydd â hanes o ymddwyn yn heriol am fod y disgybl ond yn cael ei symud yno'n ffurfiol os yw'r cyfnod prawf yn llwyddiannus. Mae llawer o fanteision posibl i drefnu symudiadau wedi'u rheoli. Serch hynny, rhaid i bawb sy'n rhan o'r broses yma roi eu caniatâd a chydweithredu'n llawn â hi. Mae hyn yn cynnwys disgyblion, rhieni/cynhalwyr, y ddwy ysgol ac asiantaethau allanol lle bo hynny'n briodol. Mae'n hanfodol y caiff symudiadau wedi'u rheoli eu cynllunio'n dda a bod y disgyblion yn cael digon o gymorth i sicrhau bod gyda nhw'r cyfle gorau i lwyddo.

Nod y protocol Symudiadau wedi'u Rheoli yw ceisio sefydlu prosesau a gweithdrefnau teg, agored a chlir i leihau'r nifer o waharddiadau parhaol a sicrhau bod y disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn derbyn, lle bo'n briodol, y cyfle i ddechrau o'r newydd mewn ysgol arall mewn modd cyson. Rhaid bod lles gorau'r plentyn wrth wraidd unrhyw symudiad wedi'i reoli, a hynny yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd sy'n rhan o ddogfen Llywodraeth Cymru
'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau'.

Caiff dysgwyr sydd ag anghenion sylweddol eu diogelu gan ddedddfwriaeth (Deddf Addysg 1996; Deddf Cydraddoldeb 2010) ac mae disgwyl i ysgolion wneud addasiadau rhesymol er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr a darparu addysg os oes ganddyn nhw anghenion addysgol arbennig. O ganlyniad i hynny, dylai

ysgolion beidio ag ystyried cynnal symudiad wedi'i reoli nes ei bod wedi rhoi amrywiaeth eang o strategaethau eraill ar waith dros gyfnod hir, ac wedi ymateb mewn modd graddedig a thrylwyr yn unol â'r amlinelliad yng Nghod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r broses wahardd, darllenwch ganllawiau Rhondda Cynon Taf ar Reoli Achosion o Wahardd Disgyblion o Ysgolion ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion.

## Adran 2. Pryd y dylid defnyddio symudiad wedi'i reoli?

Dylid ystyried symudiad wedi'i reoli os yw hynny er lles gorau'r disgybl o dan sylw yn unig. Mae canllawiau gwahardd disgyblion Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai ysgolion beidio â rhoi pwysau ar rieni i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol drwy fygwth ei wahardd yn barhaol. Gall symudiadau wedi'u rheoli leihau'r angen i wahardd disgybl yn barhaol ond ddylen nhw ddim cael eu defnyddio yn ddewis arall yn unig i waharddiad parhaol nac ychwaith eu cyflwyno i rieni yn 'unig opsiwn'; byddai hynny'n golygu na fyddai hawl gan rieni a disgyblion i apelio yn erbyn y gwaharddiad.

Efallai na fydd symudiad wedi'i reoli yn addas ar gyfer dysgwyr sydd, o bosibl, yn peri risg uchel i ddisgyblion eraill. Os yw'r risg posibl ar gyfer dysgwyr eraill yn uchel, dylai asesiad risg trylwyr gael ei gynnal yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Dyma enghreifftiau o ddisgyblion y mae modd iddyn nhw elwa o symudiad wedi'i reoli:

- disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaus ond a fydd, o bosibl, yn llwyddo mewn amgylchedd newydd;
- disgyblion sydd â hanes hir o ymddwyn yn heriol ac sy'n cael effaith niweidiol ar eu grŵp cyfoedion er bod yr ysgol wedi ymateb yn raddol ac wedi cael rhywfaint o lwyddiant;
- disgyblion sydd ddim yn gallu aros yn eu hysgolion gwreiddiol oherwydd amgylchiadau eithriadol sydd ddim o reidrwydd yn ymwneud â'u hymddygiad yn yr ysgol.

Ambell waith, y rhieni/cynhalwyr sy'n penderfynu symud eu plant i ysgol arall. Mae'n bosibl bod y penderfyniad yma wedi cael ei wneud yn dilyn problemau yn yr ysgol wreiddiol ond dydy'r ysgol honno ddim yn teimlo y dylai gychwyn y symudiad oherwydd bod dim pryderon sylweddol ynglŷn ag ymddygiad y plentyn. Dylai pob opsiwn gael ei ystyried, gan gynnwys cyfryngdod, er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi pryder, cyn i gais gael ei gyflwyno i ysgol arall. Os does dim modd datrys y problemau sy'n peri pryder, caiff y broses derbyn disgyblion i'r flwyddyn arferol ei rhoi ar waith. Mewn achosion fel hyn, dylai'r ysgol newydd roi sylw digonol i'r Cod Derbyn i Ysgolion (2013) a threfnu i'r disgybl gael ei dderbyn cyn gynted ag y bo modd gwneud hynny. Dylai'r ysgol newydd wneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r ysgol newydd er mwyn sicrhau y caiff yr wybodaeth ei rhannu a bod yr ysgol newydd yn rhoi darpariaeth briodol ar waith er mwyn sicrhau bod y disgybl yn llwyddiannus yn ei ysgol newydd.

Dydy'r polisi Symudiadau wedi'u Rheoli yma ddim yn berthnasol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Caiff y broses o dderbyn disgyblion sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ei chynnwys yn Neddf

Addysg 1996 yn ogystal â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002. Dylai'r ysgol gynnal adolygiad blynyddol o ddatganiad dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ac sydd angen newid yn narpariaeth y brif ffrwd, a hynny gyda'r holl bartneriaid perthnasol. Yn dilyn yr adolygiad, dylai'r holl ddogfennau a'r dystiolaeth ategol gael eu cyflwyno i Banel Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol a dylai'r datganiad Anghenion Addysgol Arbennig gael ei newid yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys newid y ddarpariaeth brif ffrwd a gaiff ei henwi. Mae Adran 324 o Ddeddf Addysg 1996 yn gofyn i ysgol a gynhelir, ac sydd wedi'i henwi mewn datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, i dderbyn y plentyn dan sylw. Yn yr achosion yma, does dim modd i ysgolion wrthod derbyn y disgybl, hyd yn oed os yw hynny'n golygu y byddan nhw'n mynd dros eu nifer derbyn disgyblion.

Yng ngoleuni hyn a'r cyfrifoldebau statudol sy'n ymwneud â diwallu anghenion dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, dylai unrhyw newid mewn lleoliadau yn y brif ffrwd ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad gael ei ystyried drwy weithdrefnau derbyn ac adolygu arferol.

**Adran 3. Ymateb Graddedig**

Cyn gwneud cais i symud plentyn, dylai penaethiaid fod yn fodlon bod holl weithdrefnau/strategaethau ataliol wedi cael eu hystyried a bod camau ymateb graddedig er mwyn mynd i'r afael â'r ymddygiad wedi cael eu cyflawni. Dylai ystod o strategaethau ymyrryd fod wedi cael eu harchwilio a'u dogfennu'n glir. Mae modd i'r ymyriadau yma gynnwys:

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol

- Cyfweliadau/Trafodaethau gyda rhieni
- Cynlluniau Addysg Unigol/Cynlluniau Ymddygiad Unigol; Cynlluniau Gofal Bugeiliol; asesiadau risg/cynlluniau rheoli; cynlluniau ymdrin cadarnhaol
- Asesiadau o anghenion dysgu/llesiant (e.e. Thrive; arsylwadau â ffocws)
- Newid dosbarth/grŵp addysgu, amserlen wedi'i haddasu
- Mentor/hyfforddwr dysgu, mentor sy'n gyd-ddisgybl, cymorth yn y dosbarth
- Rhaglenni ymddygiad ac ymyriadau mewn grwpiau bach (e.e. Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol)
- Systemau gwobrwyo unigol neu raglenni rheoli ymddygiad cadarnhaol
- Cynllunio i dynnu'r disgybl allan o'r ysgol/dosbarthiadau, gwaharddiad allanol
- Gwaharddiad Cyfnod Sefydlog
- Cwnsela yn yr ysgol

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol

- Cynlluniau Addysg Unigol/Cynlluniau Ymddygiad Unigol/Cynlluniau Cymorth Bugeiliol; cynlluniau asesu risg, cynlluniau ymdrin cadarnhaol
- Mynediad i gymorth estynedig yn yr ysgol/ymyriadau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a gafodd eu nodi
- Atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
- Atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a thystiolaeth o'r cynlluniau diwygiedig a'r ymyriadau yn dilyn asesiad, ymgynghoriad a/neu gyngor arbenigol.
- Opsiynau Cwricwlwm Amgen

- Cynnwys y gwasanaethau cymorth perthnasol/priodol (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (‘CAMHS’), Gwasanaethau i Blant, BAROD, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, Gyrfa Cymru)
- Hawl i gael cwnsela yn yr ysgol
- Cynnal cyfarfod rhwng y rhieni/cynhalwyr a'r pennaeth, staff bugeiliol, asiantaethau allanol a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol

Dydy hon ddim yn rhestr derfynol a dylai ysgolion gynnwys unrhyw strategaethau eraill maen nhw wedi'u defnyddio. Rydyn ni'n cydnabod y bydd amgylchiadau lle bydd ysgolion yn ystyried symudiad wedi'i reoli o ganlyniad i ddigwyddiad un tro difrifol. Dylai'r achosion yma fod yn rhai eithriadol, a chael eu trin yn y modd hwnnw. Serch hynny, mae modd ystyried symudiad wedi'i reoli yn ffordd hyfyw o ddatrys y sefyllfa yma.

**Adran 4. Proses y Symudiad wedi'i Reoli**

Dylai'r weithdrefn ganlynol gael ei dilyn (ewch i Atodiad 6 am Fap o'r Broses):

**Cam 1: Mae'r ysgol yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol a'r rhiant neu rieni/cynhaliwr neu gynhalwyr i gynnal sgwrs anffurfiol ynglŷn â chynnwys symudiad wedi'i reoli yn rhan o'r broses ymateb graddedig.**

Bydd rhieni/cynhalwyr yn gwybod yn barod am yr anawsterau mae'r disgybl yn eu cael yn yr ysgol. Wrth adolygu unrhyw ymyriad sy'n mynd rhagddo neu Raglen Cymorth Bugeiliol, dylai'r pennaeth gael sgwrs â'r rhieni/cynhalwyr a'r disgybl ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal symudiad wedi'i reoli yn rhan o strategaeth bellach i helpu'r unigolyn ifanc. Yn ogystal â hynny, dylai'r rhieni/cynhalwyr a'r disgybl gael gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â symudiadau wedi'u rheoli a chael gwybod am eu hawl i ddefnyddio gwasanaeth cynghori neu eiriolaeth i rieni (ewch i Atodiad 1).

Er mwyn sicrhau bod symudiad wedi'i reoli yn llwyddiannus, rhaid i'r rhieni/cynhalwyr a'r disgyblion fod yn effro i'r broses a'i deall. Yn ogystal â hynny, rhaid iddyn nhw gael y cyfle i ddylanwadu ar ddyfodol y plentyn pan fo modd iddyn nhw wneud hynny. Mae modd i SNAP Cymru ddarparu cymorth i'r teulu, neu mae modd i eiriolwr ddod i'r cyfarfod hefyd.

Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n hanfodol bod y gweithiwr cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y broses. Yn rhinwedd ei rôl fel Rhiant Corfforaethol, dylai'r gweithiwr cymdeithasol gael ei gynnwys mewn unrhyw sgwrs ynglŷn â symudiad wedi'i reoli o'r dechrau. Efallai y bydd y penderfyniad i symud yn gofyn am atgyfeiriad i fforwm amlasiantaeth pellach. Yn ogystal â hynny, dylai adolygiad o'r plentyn sy'n derbyn gofal gael ei gynnal er mwyn ystyried ei ddymunadau. Mae gan blant sy'n derbyn gofal hawl i gael cymorth gan eiriolwr. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2009 a'r canllawiau dilynol yn hyrwyddo'r weithred o gynnwys yr eiriolwr yn adolygiad y plentyn. Mae cymorth eirioli i ddisgyblion sy'n derbyn gofal yn cael ei ddarparu gan Tros Gynnal Plant. Dylai hyn gael ei drafod gyda'r gweithiwr cymdeithasol perthnasol.

Caiff y drafodaeth gychwynnol gyntaf ei chynnal gyda'r swyddogion perthnasol o'r awdurdod lleol (yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd) a/neu'r Athro Trosglwyddo Disgyblion yn y Flwyddyn).

Ar gyfer dysgwyr sydd heb ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig, ond sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, dylai'r rhieni a'r asiantaethau perthnasol sy'n gweithio gyda'r disgybl gael eu gwahodd i gyfarfod yn yr ysgol wreiddiol.

**Cam 2: Cyfarfod yn yr ysgol gyda'r ysgol, y rhiant/cynhaliwr, y disgybl, cynrychiolwyr yr awdurdod lleol ac unrhyw asiantaethau eirioli eraill**

Caiff cyfarfod ei drefnu lle bydd yr ysgol yn rhoi eglurhad llawn o'r gweithdrefnau a'r protocolau o ran symudiadau wedi'u rheoli, yn ogystal â hawliau'r rhieni yn unol â'r amlinelliad yn neddfwriaeth gwahardd a derbyn disgyblion Llywodraeth Cymru (ewch i Atodiad 2 am lythyr gwahoddiad drafft).

Os bydd pawb yn cytuno i barhau â'r cais am symudiad wedi'i reoli, yna bydd yr ysgol yn trefnu bod y ffurflen Bwriad i Drosglwyddo'n cael ei llenwi. Dylai hyn gael ei lofnodi gan y rhieni fel bod tystiolaeth bod y rhieni wedi caniatáu i'r wybodaeth berthnasol gael ei rhannu yng nghyfarfod y Panel Protocol Mynediad Teg.

**Cam 3: Cyfeirio at y Panel Mynediad Teg**

Yn dilyn y cyfarfod, dylai'r ffurflen Bwriad i Drosglwyddo, yn ogystal â'r dogfennau perthnasol, gael eu hanfon drwy e-bost diogel at **angie.williams-roberts@rctcbc.gov.uk**. Dylai pob atgyfeiriad ac unrhyw ddogfennau ategol gael eu hanfon i'w hystyried o fewn pump diwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod y Panel Mynediad Teg. Y bwriad yw cynnal y cyfarfod hwn bob tair wythnos.

Caiff yr holl ffurflenni Bwriad i Drosglwyddo eu hystyried mewn Cyfarfod Atgyfeirio i'r Panel Mynediad Teg sy'n cynnwys Cydlynydd Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn yr Awdurdod Lleol, yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd ac uwch swyddogion y Gwasanaeth Seicoleg Addysg / y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a chynrychiolydd o'r ysgol. Bydd angen i Swyddogion gytuno p'un a oes angen cyflwyno'r achos ger bron y Panel Protocol Mynediad Teg neu p'un a ddylai hyn gael ei brosesu'n rhan o'r broses derbyn disgyblion arferol yn ystod y flwyddyn. Dylai cofnodion manwl gael eu cadw o'r cyfarfod at ddibenion tryloywder.
.
Caiff yr holl atgyfeiriadau a gaiff eu hystyried yn briodol ar gyfer y Panel Protocol Mynediad Teg eu dosbarthu i holl aelodau'r panel drwy e-bost diogel, a hynny dri diwrnod cyn dyddiad cyfarfod y panel. Bydd gofyn i bob aelod o'r panel ddod â'r wybodaeth sydd wedi'i dosbarthu i'r cyfarfod. Fydd dim copïau papur o'r wybodaeth ar gael yn y cyfarfod.

Bydd y Panel Protocol Mynediad Teg yn ystyried yr atgyfeiriad a'r dogfennau ategol. Byddan nhw hefyd yn ystyried dewis y rhieni o ran y lleoliad newydd, yn ogystal â barn y plentyn/unigolyn ifanc. Bydd y Panel Protocol Mynediad Teg yn dod o hyd i leoliad ysgol prif ffrwd addas. Os ydy ysgol bosibl wedi cael ei nodi eisoes cyn cyfarfod y Panel Protocol Mynediad Teg, rydyn ni'n argymell i'r panel wneud atgyfeiriad beth bynnag fel bod modd cynnal a chadw'r data ynglŷn â dysgwyr anodd eu lleoli. Mae'r mathau hyn o drafodaethau ymlaen llaw yn ddefnyddiol gan bod modd iddyn nhw gyflymu prosesau'r panel. Serch hynny, bydd yr holl benderfyniadau yn destun cymeradwyaeth y panel, yn ogystal â thrafodaethau sy'n cynnwys yr ysgolion perthnasol yng nghyfarfod y panel. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y Panel Mynediad Teg a'r Panel Protocol Mynediad Teg drwy ddarllen y Protocol Mynediad Teg. Bydd pob ysgol a gaiff ei

chynrychioli ar y panel yn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn brydlon a bod pawb yn cydweithio'n effeithiol.

Caiff y rhieni wybod am benderfyniad y panel o fewn 2 ddiwrnod gwaith, a hynny drwy'r Gwasanaeth Derbyn Disgyblion. Os yw'r rhieni'n cytuno â'r lleoliad arfaethedig, caiff trefniadau eu gwneud er mwyn symud ymlaen i Gam 4.

**Cam 4: Caiff Cyfarfod Trefnu Symudiad wedi'i Reoli ei gynnal yn yr Ysgol sy'n Derbyn y Disgybl**

Bydd yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd yn ymgysylltu â'r bobl berthnasol er mwyn sicrhau y caiff cyfarfod ei gynnal yn yr ysgol sy'n derbyn y disgybl. Nod y cyfarfod yma yw cytuno ar fanylion y lleoliad prawf. Yn y cyfarfod yma, dylai'r canlynol fod yn bresennol:

- y disgybl
- rhieni/cynhalwyr
- pennaeth yr ysgol gartref neu uwch aelod o staff enwebedig sydd yn adnabod y disgybl yn dda
- pennaeth yr ysgol sy'n derbyn y disgybl neu uwch aelod o staff enwebedig sydd yn adnabod y disgybl yn dda
- y gweithiwr cymdeithasol a'r Cydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal os yw'r plentyn yn derbyn gofal
- cynrychiolwyr o asiantaethau perthnasol eraill yn ôl yr angen (e.e Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd)

Dylai'r holl wybodaeth a gaiff ei chyflwyno i'r Panel Mynediad Teg gael ei rhannu yn y cyfarfod, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ategol. Ar bennaeth yr ysgol gartref mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod holl fanylion hanes y disgybl yn cael eu datgelu er mwyn sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn y disgybl yn gwbl effro i'w anawsterau.

Dylai holl gofnodion y disgybl fod ar gael. Er mwyn sicrhau bod modd gwneud penderfyniad hyddysg, rhaid rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am y disgybl gyda'r ysgol sy'n derbyn y disgybl cyn i'r ysgol honno gytuno i'w dderbyn. Caiff yr wybodaeth y mae modd ei rhannu ei hamlinellu yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004. Mae Rheoliad 5(3) o'r rheoliadau yma'n nodi bod rhaid i bennaeth yr ysgol wreiddiol drosglwyddo cofnod addysgol y disgybl i'r unigolyn cyfrifol, a hynny am ddim, pan fydd ysgol (gan gynnwys ysgolion annibynnol) neu sefydliad addysg bellach yn ystyried derbyn y disgybl. Rhaid gwneud hyn o fewn 15 diwrnod i dderbyn y cais. Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 yn nodi y dylai gwybodaeth gael ei rhannu drwy'r System Drosglwyddo Gyffredin.

Dylai rhan o'r trafodaethau ystyried trefniadau ymarferol, gan gynnwys trafnidiaeth a gwisg ysgol, disgwyliadau realistig yr ysgol sy'n derbyn y disgybl ac anghenion bugeiliol ac academaidd y disgybl. Caiff cymorth gyda thrafnidiaeth ei drefnu ar sail pob achos unigol ac mae'n bosibl y bydd gofyn am ragor o sgyrsiau gyda'r Uned Trafnidiaeth Integredig.

Dylai anghenion y disgybl sy'n symud o ran cymorth gael eu hegluro, eu trafod a'u cytuno yn y cyfarfod. Dylai'r holl gymorth a strategaethau gael eu adlewyrchu yn Rhaglen Cymorth Bugeiliol yr ysgol newydd. Yn ogystal â hynny, dylai'r sawl

perthnasol ystyried strategaethau fydd yn galluogi'r disgybl i symud i'r ysgol newydd a'r grŵp cyfoedion newydd yn effeithiol. Mae modd i'r strategaethau posibl gynnwys mynediad i'r canlynol:

- y Cydlynydd AAA neu athro Anghenion Addysgol Arbennig arbenigol er mwyn asesu anghenion y disgybl, fel bod modd llywio cymorth ac ymyriadau yn yr ysgol
- cymorth unigol (e.e. cymorth yn y dosbarth; hyfforddwr/mentor dysgu; cwnsela yn yr ysgol; cymorth bugeiliol; cynlluniau cymorth cyfoedion/mentora)
- cymorth neu ymyriadau grŵp (e.e. hyfforddiant sgiliau cymdeithasol; sesiynau i Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol)
- asesiad, cyngor neu ymgynghoriad gan asiantaeth allanol (e.e. Seicoleg Addysg; Gwasanaeth Cynnal Dysgu (gan gynnwys Carfan Cynnal Ymddygiad); Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles)
- cynllunio i dynnu'r disgybl allan o'r ysgol/dosbarthiadau pan fo angen
- gweithdrefnau cymorth yn yr ysgol (e.e. cerdyn adroddiad, mynediad at athro enwebedig)
- mentor o'r sector gwirfoddol neu gymunedol
- gweithgareddau darpariaeth estynedig

Caiff Cyllid Anghenion Ychwanegol ei ddyrannu i bob ysgol, felly dylai cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n manteisio ar symudiad wedi'i reoli ddod o Gyllideb Unigol yr Ysgolion (5% yn dybiannol) yn ogystal ag unrhyw adnoddau eraill sydd wedi'u dyrannu.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae modd ystyried Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel trefniant dros dro cyn i'r disgybl ddechrau yn y lleoliad newydd. Serch hynny, dylai'r ysgolion ganolbwyntio ar drefnu'r dyddiad dechrau cyntaf posibl, a hynny ddim hwyrach na 15 diwrnod ar ôl cytuno ar y trefniant.

Os bydd angen darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yna dylai'r trefniadau ddilyn y prosesau sydd wedi'u hamlinellu yn y Protocol Gwneud Cais am Leoliad Arbenigol.

Mae'r ddeddfwriaeth sydd ynghlwm â Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn gofyn i bob ysgol benodi aelod o staff ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (h.y. unigolyn arweiniol). Yn ystod y cyfnod pontio rhwng y ddwy ysgol, dylai'r unigolyn arweiniol gyfathrebu'n agos â'r ddwy ysgol er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio'n mynd rhagddo'n ddi-drafferth. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfle i'r plentyn neu unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal gael cymorth parhaus. Mae disgyblion sydd wedi wynebu llawer o newidiadau o ran lleoliad yn cael budd o gael unigolyn wedi'i enwebu sy'n darparu cymorth yn ystod y cyfnod pontio cynhyrfus. Yn achlysurol, efallai y bydd modd i weithiwr cymorth sydd wedi'i enwebu, megis cynorthwy-ydd cynnal dysgu, symud i ysgol newydd gyda'r plentyn neu unigolyn ifanc. Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dylai'r symudiad wedi'i reoli gael ei gofnodi yn y Cynllun Addysg Unigol a'i nodi yn y Cynllun Gofal a Chymorth.

Yn y cyfarfod, dylai pawb gytuno ar y dyddiad dechrau a hyd y cyfnod prawf. Dylai hyn fod am gyfnod sy'n para o leiaf chwe wythnos (gydag adolygiadau rheolaidd) a dim mwy nag un tymor. Yn ogystal â hynny, dylai dyddiadau'r cyfarfodydd adolygu rheolaidd a'r cyfarfodydd adolygu terfynol gael eu cytuno yn y cyfarfod. Dylai'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y lleoliad gael ei drafod, a dylai pawb gytuno ar y targedau

y mae'n rhaid eu cyflawni cyn i'r lleoliad gael ei wneud yn un parhaol cyn diwedd y cyfnod prawf.

Dylai'r disgybl fod yn effro i'r hyn a fydd yn digwydd os yw'r Symudiad wedi'i Reoli yn aflwyddiannus. Dylai e fod yn effro i'r ffaith y bydd llwyddiant y lleoliad yn dibynnu ar ei ymddygiad yn yr ysgol newydd. Mae'n hanfodol fod y disgybl yn cymryd cyfrifoldeb dros ei ymddygiad ei hun er mwyn i'r lleoliad newydd fod yn llwyddiannus. Dylai'r cyfarfod ganolbwyntio ar sicrhau bod y disgybl wedi ymrwymo i newid ei ymddygiad yn y modd hanfodol yma.

Dylai'r sawl perthnasol ddweud wrth Rieni/Cynhalwyr am yr opsiynau eraill a fydd yn cael eu hystyried pe bai'r symudiad wedi'i reoli yn aflwyddiannus.

Dylai'r holl wybodaeth berthnasol a'r camau y mae pawb wedi cytuno arnyn nhw gael eu cofnodi yn ystod y cyfarfod, a dylai'r cofnod gael ei lofnodi. Yn dilyn y cyfarfod, dylai'r holl unigolion perthnasol dderbyn copi o'r Ffurflen Cytuno i Symudiad wedi'i Reoli (Atodiad 4) sydd wedi'i llenwi a'i llofnodi.

## Cam 5: Gweithredu'r symudiad wedi'i reoli

### Cofrestru, Presenoldeb a Lles

Yn ystod y cyfnod prawf cychwynnol, bydd y disgybl ar ddwy gofrestr; prif gofrestr yr ysgol gartref ac is-gofrestr yr ysgol sy'n derbyn y disgybl. Felly yr ysgol gartref fydd yn cadw cofnodion presenoldeb a gwaharddiadau yn ystod y cyfnod prawf. Dylai'r ysgol gartref gysylltu â'r ysgol sy'n derbyn y disgybl bob wythnos er mwyn sicrhau y caiff cofnodion presenoldeb eu diweddaru a'u bod nhw'n gywir. Bydd yr ysgol gartref yn cofnodi presenoldeb y disgybl gan ddefnyddio'r cod D lle mae'r disgybl yn bresennol yn yr ysgol sy'n derbyn.

Dylai'r ysgol sy'n derbyn y disgybl roi gwybod i'r ysgol gartref am unrhyw absenoldebau neu bryderon am les. Dylai codau absenoldebau'r ddwy ysgol gyfateb i'w gilydd. Os yw'r disgybl yn derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, bydd Swyddog Mynychu'r Ysgol a Lles yr ysgol gartref, sy'n delio â'r achos, yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro presenoldeb yn ystod y cyfnod prawf.

### Ariannu

Yn ystod y cyfnod prawf yma, mae modd i'r ysgol gartref a'r ysgol sy'n derbyn y disgybl gyd-drafod ynglŷn â'r cyllid ar gyfer y disgybl. Serch hynny, fel arfer, byddai uned y disgybl, sy'n seiliedig ar oedran, yn symud gyda'r disgybl unwaith i'r broses symudiad wedi'i reoli ddod i ben yn llwyddiannus.

### Gwerthuso

Dylid cynnal cyfarfod yn y cyfamser i adolygu cynnydd gyda'r rhieni/cynhalwyr ar ôl deng niwrnod cyntaf y disgybl yn yr ysgol newydd. Caiff cyfarfod adolygu terfynol ei gynnal tua diwedd y cyfnod prawf pan fydd y symudiad yn dirwyn i ben, oni bai fod tystiolaeth sy'n awgrymu y dylai'r cyfnod gael ei ymestyn.

Os bydd y disgybl yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n awgrymu y byddai eithrio'n gam disgybl priodol, ni waeth a fyddai yn dirwyn y symudiad i ben ai peidio,

rhaid cyfeirio'r mater at yr ysgol gartref a rhaid i bennaeth yr ysgol honno roi unrhyw waharddiad ar waith a'i reoli.

Os oes unrhyw amgylchiadau sy'n peryglu gweddill y cyfnod prawf, rhaid i bennaeth yr ysgol sy'n derbyn y disgybl gysylltu â'r ysgol gartref a'r awdurdod lleol fel bod modd trafod sut i ymdrin â'r mater. Os yw'r sawl sy'n berthnasol yn teimlo bod ymddygiad y disgybl yn ddigon difrifol i ddirwyn y cyfnod prawf i ben, yna dylen nhw drefnu cyfarfod adolygu terfynol.

Mae i'r cyfarfod adolygu terfynol dri chanlyniad posibl:

1. Mae'n bosibl i'r sawl sy'n bresennol gytuno i ymestyn y symudiad wedi'i reoli tan ddiwedd y tymor neu'r tu hwnt. Serch hynny, byddai cyfnod prawf pellach yn briodol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai ail gyfarfod adolygu gael ei drefnu a dylai pawb benderfynu ar ddyddiad newydd;

2. **Mae'r symudiad wedi'i reoli yn cael ei ystyried yn llwyddiannus** ac mae'r ysgol yn cytuno i drosglwyddo'r disgybl yn barhaol. Mae'r holl unigolion perthnasol yn llenwi'r Ffurflen Gwerthuso Symudiad wedi'i Reoli (Atodiad 5). Dylai pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod lofnodi'r copïau a'u dosbarthu i'r unigolion priodol. Ar yr adeg yma, ar ôl i'r rhiant gwblhau Ffurflen Drosglwyddo yn ystod y Flwyddyn, caiff y cam ffurfiol o dderbyn disgybl i'r ysgol ei brosesu drwy'r Gwasanaeth Derbyn Disgyblion. Caiff cofnod ysgol y disgybl ei drosglwyddo i'r ysgol newydd yn unol â'r Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 a gafodd eu crybwyll yng Ngham 3. Bydd gofyn i ysgolion sy'n derbyn y disgybl ddod â'r cofnod '*Gwestai*' ar y gofrestr i ben ac ailgofrestru'r disgybl gyda'r cofnod '*prif ysgol unigol*' o'r dyddiad dechrau a gytunwyd arno i sicrhau bod y cyfnod prawf ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion.

3. **Mae'r symudiad wedi'i reoli yn cael ei ystyried yn aflwyddiannus.** Yn yr achos yma, bydd y cyfarfod adolygu yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon cyfredol ac mae modd argymell nad yw'r lleoliad yn yr ysgol sy'n derbyn y disgybl yn hyfyw. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd opsiynau eraill yn cael eu harchwilio, gan gynnwys ai dychwelyd i'r ysgol gartref fyddai'r peth gorau.

Er na fyddai dychwelyd i'r ysgol gartref yn golygu y caiff y disgybl ei wahardd yn barhaol yn awtomatig o'r ysgol honno neu o'r ysgol sy'n derbyn y disgybl, mae modd i'r ysgol gartref benderfynu gwahardd y disgybl yn barhaol os oes sail ddigonol dros wneud hynny.

